



Dyddiad: 14 Mawrth 2019

Arolwg Omnibws Cymru 2018 – Oedolion a'r Celfyddydau

Cyflwyniad

Ers 1993 mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o'r boblogaeth am fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddyn nhw. Drwy gyfres o gwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru gan Ymchwil Beaufort Cyf ym mis Tachwedd, rydym ni'n casglu gwybodaeth am:

- mynychu digwyddiadau celfyddydol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau artistig.

Mae o leiaf 1,000 o gyfweliadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn gyda sampl wedi'u cynllunio i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth Cymru sy'n 16 a hŷn.

Dyma grynhof'r data diweddaraf am fynychu a chymryd rhan pobl mewn oed ac yn ôl grwpiau demograffig allweddol.


Canlyniadau allweddol

Mynychu digwyddiadau celfyddydol

Ers 2006 rydym ni'n gofyn i bobl ynghylch mynychu gyda rhestr gyson o 14 celfyddyd.¹ Mae'r graff drosodd yn dangos cyfran yr oedolion sy'n byw yng Nghymru ac yn mynychu o leiaf un o'r 14 celfyddyd o leiaf unwaith y flwyddyn dros y deuddeg mlynedd diwethaf.

- Dywedodd 84.6% o'r ymatebwyr yn 2018 eu bod yn mynychu o leiaf un digwyddiad celfyddydol y flwyddyn. Cynnydd yw hyn o 3.9 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


¹ Dyma'r 14 celfyddyd: sinema; sioe gerdd (nid opera); opera; bale; dawns gyfoes; drama; cerddoriaeth glasurol (cyngerdd/datganiad); jas (cyngerdd/perfformiad); cerddoriaeth werin, draddodiadol, y byd; cerddoriaeth fyw arall; oriel gelf/crefft neu arddangosfa; darlenniad/adrodd stori a digwyddiad llenyddol arall; carnifal a chelfyddyd y stryd; gŵyl gelfyddydol (er enghraifft, cerddoriaeth, dawns, drama, llenyddiaeth)



Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2008-2018

- Wrth dynnu sinema o'r dadansoddiad, mae pedwar allan o bump (79.6%) yn mynd i ddigwyddiad celfyddydol. Mae hwn yn gynnydd bach o'i gymharu â 75.9% y flwyddyn flaenorol.
- Mae mynychu'r celfyddydau yn 2018 yn parhau i fod yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol. Mae'r rhai mewn dosbarth uwch (ABC1) sy'n weithwyr proffesiynol, cymwys, nad ydynt yn gweithio gyda'u dwylo yn debycach o fynd i'r celfyddydau (88.8%) na'r rhai yn y grŵp is C2DE (80.4%) sy'n weithwyr crefftus, lled-grefftus a di-grefft a phobl ddi-waith.
- Roedd mynychu gan y rhai ABC1 wedi cynyddu gan 2.4 pwynt canran o 2017, ond roedd cynnydd ychydig yn uwch o 5.4 pwynt canran i grŵp C2DE.



Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2008-2018

- Mae oedolion 16-24 oed yn debycach o fynychu'r celfyddydau nag unrhyw grŵp oedran arall (92.7%). Mae hyn yn cymharu â 70.5% o'r rhai dros 65 oed. Y grŵp oedran sydd wedi cael y cynnydd mwyaf o 2017 yw'r rhai 45-64 oed gan 6.9 pwynt canran i 87.8%.
- Mae 2018 yn dangos cynnydd bach yn y bwll rhwng y rhywiau. Gyda chynnydd o 3.4 pwynt canran i fenywod i 85.7%, a gostyngiad i ddynion (4.6 pwynt canran) i 78.9%, mae bwll o 3.4 pwynt canran erbyn hyn. Hynny o gymharu â 2.2 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.
- Mae gostyngiad ymhlith siaradwyr Cymraeg yn golygu bod y bwll mynychu rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg yn llai. Mae 86.9% o siaradwyr Cymraeg yn mynychu sy'n ostyngiad o 3.7 pwynt canran o 2017 pan oedd yn 90.6%. Mae cynnydd ymhlith pobl ddi-Gymraeg, o 77.4% yn 2017 i 84% yn 2018. Felly mae'r bwll rhwng y ddau grŵp wedi cau'r bwll o 13.2 pwynt canran yn 2017 i 2.9 pwynt canran yn 2018.
- Ychydig dros hanner (56.3%) yr oedolion a aeth i'r sinema yn 2018 sy'n golygu mai sinema yw'r gelfyddyd fwyaf poblogaidd o ran mynychu. Fel yn y gorffennol, y celfyddydau mwyaf poblogaidd wedyn yw cerddoriaeth fyw 'arall' (46.6%), wedyn carnifal/celfyddyd y stryd (41.5%) ac wedi hynny arddangosfeydd ac orielau celf neu grefft (34.8%).

Cymryd rhan yn y celfyddydau

Mae rhestr gyson o 7 celfyddyd² i gymryd rhan ynddyn nhw yn yr arolwg ers 2009. Mae'r graff isod yn dangos lefel y cymryd rhan mewn o leiaf un o'r celfyddydau yma dros y naw mlynedd diwethaf.

- Mwy na dwy ran o bump o oedolion (45.6%) sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae'r lefel yma wedi aros yn eithaf digyfnewid (i lawr 0.2 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol).




Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2018

- Fel gyda mynychu'r celfyddydau, mae cymryd rhan hefyd yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol. Yn 2018 roedd 51.4% o oedolion ABC1 wedi cymryd rhan yn y celfyddydau o gymharu â 39.7% o rai C2DE. Ychydig iawn o newid a fu yn y bwllch rhwng y ddau grŵp cymdeithasol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd bwllch o 12 pwynt canran yn 2017 ac 11.7 pwynt canran yn 2018.

² Dyma'r 7 celfyddyd: cerddoriaeth; drama neu weithgarwch theatr; dawn; ffilm, fideo neu ffotograffiaeth; y celfyddydau gweledol a chrefftiau; ysgrifennu creadigol; y celfyddydau digidol



Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2018

- Ychydig dros hanner (57.2%) yn yr oed 16-24 a oedd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dyma'r grŵp gyda'r lefel uchaf o gymryd rhan. Ond yn y grŵp oedran 25-34 yr oedd y gostyngiad mwyaf o'r flwyddyn flaenorol (9.4 pwynt canran). Fel yn 2017, y lefel isaf o gymryd rhan oedd ymhlith y grŵp 45-64 oed, gyda 40.5% yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach.
- Fel yn y gorffennol, roedd mwy o fenywod (49.7%) na dynion (41.2%) yn cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2018. Mae'r bwch rhwng dynion a merched wedi cau ychydig o 2017 gan hanner pwynt canran.
- O'r saith celfyddyd cymryd rhan, y celfyddydau gweledol a chrefftau yw'r mwyaf poblogaidd gydag ychydig dros chwarter (26.8%) o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. O ran bod yn boblogaidd, y rhai nesaf oedd cerddoriaeth (17.1%), y celfyddydau digidol (10.9%), gwneud ffilm a fideo (10.5%) ac ysgrifennu creadigol (10.1%).

Pa mor aml?

Unwaith y flwyddyn rydym ni'n cynnwys cwestiynau yn arolwg Omnibws yr Oedolion gan Ymchwil Beaufort fis Tachwedd. Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad llawn am y set ddata yn Ebrill 2019.

Termau a diffiniadau

Mynychu – profi'r celfyddydau fel aelod o'r gynulleidfa.

Cymryd rhan – cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, megis mynychu gweithdai, dosbarthiadau neu ymarferion.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech:

-- cynnig sylwadau neu ofyn cwestiynau am y data yma

-- neu gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio reolaidd am hyn

Cysylltwch â'n tîm ymchwil - ymchwil@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

Manylion cyswllt

Tim Ymchwil a Gwerthuso

Cyngor Celfyddydau Cymru

Plas Bute

Caerdydd

CF10 5AL

Ffon: 02920 44 1375

Ebstio: ymchwil@celf.cymru

Y diweddariad nesaf : Ebrill 2019
